# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(213)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (90 munud)**

**4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Y Cynllun Gweithredu Sgiliau (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**

Datganiad polisi ar sgiliau

Ymgynghoriad ar gydbwyso'r cyfrifoldebau am fuddsoddi mewn sgiliau: cynigion ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn darparu sgiliau ôl-19

**5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Archwiliadau Dirybudd mewn Ysbytai (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi: Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (45 munud)**

**Dogfen Ategol**
Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

**7 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2014 - Gohiriwyd**

**8 Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2014-15 (30 munud)**

**NDM5541 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 24 Mehefin 2014.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen Ategol**
Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Gorffennaf 2014 i'w hateb ar 15 Gorffennaf 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o’r effaith y mae’r broses o drosglwyddo i'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn ei chael ar bobl yng Nghymru? OAQ(4)1809(FM)

**2. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gyllideb ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion? OAQ(4)1803(FM)**W**

**3. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar weithdrefnau unioni cwynion y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1799(FM)

**4. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio lesddeiliadaethau? OAQ(4)1796(FM)

**5. Gwyn Price (Islwyn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo twristiaeth yn Islwyn? OAQ(4)1802(FM)

**6. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1808(FM)

**7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bwysigrwydd sioeau amaethyddol, fel Sioe Frenhinol Cymru, i Gymru? OAQ(4)1798(FM)

**8. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru? OAQ(4)1801(FM)

**9. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o weithiau y mae Llywodraeth

Cymru wedi cael gorchymyn i ddatgelu gwybodaeth yn dilyn apêl i'r Comisiynydd Gwybodaeth? OAQ(4)1806(FM)

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal ynghylch Prifysgol Glyndŵr? OAQ(4)1805(FM)**W**

**11. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl hŷn? OAQ(4)1800(FM)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw'r risgiau a'r manteision i Gymru o bartneriaeth drawsatlantig bosibl ar gyfer masnach a buddsoddi? OAQ(4)1810(FM)

**13. David Rees (Aberafan):** Beth yw cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â chloddio glo brig? OAQ(4)1811(FM)

**14. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gamau i hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg? OAQ(4)1812(FM)**W**

**15. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau ar gyfer adfywio y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflawni yn 2014? OAQ(4)1804(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac mae modd eu gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Toriad: Dydd Llun 21 Gorffennaf 2014 - dydd Sul 14 Medi 2014**
**Dydd Mawrth 16 Medi a dydd Mercher 17 Medi 2014**
**Dydd Mawrth 23 Medi a dydd Mercher 24 Medi 2014**
**Dydd Mawrth 30 Medi a dydd Mercher 1 Hydref 2014**
*********************************************************************

**Dydd Mawrth 16 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon: Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Camau gan y Sector Tai i Fynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Cham-drin Domestig (30 munud)
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dadreoleiddio: Diwygiadau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref-Ysgol (15 munud)

**Dydd Mercher 17 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i gyfleoedd ariannu'r UE 2014-2020 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 23 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Canlyniad Refferendwm yr Alban a'i oblygiadau ar gyfer Cymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Gwasanaethau Cynghori - darparu cefnogaeth ymarferol i bobl yr effeithir arnynt gan y camau i Ddiwygio Lles (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Cynnydd tuag at Gymru Ddigidol (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith: Darpariaethau ar gyfer Rheoli Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol (15 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 30 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cyllideb Ddrafft 2015-16 (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd mewn perthynas â darpariaethau sy'n ymwneud â'r drosedd o gam-drin neu esgeuluso bwriadol gan weithwyr gofal (15 munud)
- Dadl: Darlledu (60 munud)

**Dydd Mercher 1 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)